CAERSALEM

Cynllun hyfforddi disgyblion cenhadol

Prosbectws [drafft]

Caersalem
Stryd Garnon
Caernarfon

www.caersalem.com
facebook.com/caersalem

rhys@caersalem.com
07834 556202

Gwnewch ddisgyblion ...

Mae baich arbennig gennym ni yng **Nghaersalem Caernarfon** i feithrin a hyfforddi pobl i fod yn **ddisgyblion cenhadol** yng Nghymru heddiw.

Mae ein **cynllun interniaeth** yn addas i rai sy'n ystyried cyflwyno eu hunain i'r weinidogaeth ffurfiol neu'n flwyddyn o hyfforddiant a phrofi i unrhyw un sydd eisiau arfogi eu hunain i fod yn ddisgyblion cenhadol ym mha bynnag gyd-destun lleol y bydd Duw yn eu galw iddo.

Beth ydy ein credo a beth yw seiliau'r hyfforddiant a gynigwn?

Dyma'r frawddeg sy'n crynhoi beth sy'n bwysig i ni:
Rydym ni'n bobl sydd eisiau "adnabod, addoli a dilyn Iesu a'i gyflwyno i eraill."

Adnabod Iesu
Dydyn ni ddim yn meddwl fod Duw yn dduw pell sy'n byw ar y cymylau, ond yn hytrach rydym ni'n credu fod Duw wedi dod atom ni, sef Iesu Grist. Oherwydd hynny fe allwn ni adnabod Duw. Oherwydd bod y byd yma ac yn aml ein bywydau ni mewn llanast, rydym ni angen troi ac adnabod Iesu, oherwydd fe sy'n dod â gobaith i bob sefyllfa. Rydym ni eisiau helpu pobl i ddod i adnabod Iesu am y tro cyntaf, a helpu ein gilydd i adnabod Iesu'n well.

Addoli Iesu
Rydym ni'n credu fod Duw wedi ein creu ni i fyw bywydau a fydd yn ei addoli ef. Er fod canu gyda'n gilydd ar ddydd Sul yn rhan bwysig o addoli, mae llawer mwy 'na hynny i addoli hefyd. Rydym ni'n credu fod modd gwneud popeth fel addoliad i Dduw – o ofalu am ein teulu, i weithio'n galed yn y gwaith i olchi'r llestri hyd yn oed! Mae meddwl am ein bywyd fel un cyfle mawr i addoli yn rhoi gwerth a phwrpas arbennig i fywyd pawb.

Dilyn Iesu
Mae llawer o bobl yn gwybod am Iesu, ond mae Iesu yn ein galw i'w ddilyn. Rydym ni'n bobl sy'n credu yn Iesu, ond gyda'i help rydyn ni'n ceisio ei ddilyn hefyd. Rydym ni'n gofyn am ei help i ni garu a gwasanaethu pobl fel mae Iesu'n gyntaf wedi ein caru ni.

Ei gyflwyno i eraill
Mae gennym ni i gyd ffydd bersonol, ond all dilynwyr Iesu fyth gadw eu ffydd yn breifat. Rydym ni wrth ein boddau yn rhannu'r newyddion da am Iesu gyda phobl drwy sôn wrth bobl amdano a cheisio byw sut roedd e'n byw.

Natur yr hyfforddiant

Credwn mai **yn a thrwy'r eglwys leol y mae modd darparu'r hyfforddiant gorau** a mwyaf hyblyg heddiw, yn arbennig hyfforddiant ym maes gwneud disgyblion cenhadol.

Mae ein profiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos i ni fod yn **rhaid i ddysgeidiaeth, gweledigaeth ac ymarferiad ddod law yn llaw** wrth hyfforddi.

Mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig mae Caersalem yn gallu darparu'r hyfforddiant a'r profiadau canlynol:

Rhan 1 - miniogi'r meddwl: pam rydym ni'n gwneud beth rydym ni'n gwneud?

Goruchwylir yr hyfforddiant gan y **Parch. Ddr. Rhys Llwyd** a **Dr. Menna Machreth** ond fe arweinir gwahanol agweddau o'r hyfforddiant gan amrywiol aelodau o dîm arwain Eglwys Caersalem.

Darperir y dysgu ffurfiol ar ffilm gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw yn eu hamrywiol feysydd. Arweinir seminarau trafod wedyn yn lleol a derbynnir traethodau byr a syml i ddangos fod y rhai sy'n dilyn y rhaglen wedi deall a dirnad y deunydd.

TYMOR 1 (MEDI-RHAGFYR)

Modiwl 1: **Cwrs y Beibl - Trosolwg o'r Beibl**

Cwrs sydd wedi ei baratoi gan Andrew Ollerton a'i hyrwyddo gan Gymdeithas y Beibl.

Modiwl 2: **The Prayer Course - Cyflwyniad i weddi**

Cwrs wedi ei baratoi gan Pete Greig o'r mudiad 24/7 Prayer.

Modiwl 3: **Trosolwg o Hanes yr Eglwys - Rhan 1**

O'r Eglwys Fore hyd y Diwygiad Protestannaidd
Cwrs syml yn seiliedig ar gyflwyniad R. Tudur Jones i Hanes yr Eglwys, *Blas ar Gristnogaeth Cymru*. Pwyslais ar ddysgu gwersi ymarferol i'r eglwys heddiw o gyfnodau yn hanes yr eglwys.

TYMOR 2 (IONAWR-PASG)

Modiwl 4: **Cyflwyniad i 15 Testun Beiblaidd Allweddol**

gan N. T. (Tom) Wright.

Modiwl 5: **Cwrs Fruitfulness on the Frontline**

gan Mark Greene. Cwrs gan y London Institute for Contemporary Christianity sy'n dysgu sut mae bod yn ddisgyblion cenhadol yn ein bywydau bob dydd ac ym mhob rhan o'n bywyd.

Modiwl 6: **Trosolwg o Hanes yr Eglwys: Rhan 2**

Y Diwygiad Protestannaidd hyd y Diwygiad Efengylaidd
Cwrs syml yn seiliedig ar gyflwyniad R. Tudur Jones i Hanes yr Eglwys – *Blas ar Gristnogaeth Cymru*.

TYMOR 3 (PASG-GORFFENNAF)

Modiwl 7: **Cyflwyniad i Lythyr Paul at y Philipiaid**

gan N. T. (Tom) Wright.

Modiwl 8: **Trosolwg o Hanes yr Eglwys: Rhan 3**

Y Ganrif Fawr hyd troad y mileniwm.
Cwrs syml yn seiliedig ar gyflwyniad R. Tudur Jones i Hanes yr Eglwys – *Blas ar Gristnogaeth Cymru*.

Rhan 2 – ymarfer ein ffydd: sut rydym ni'n gwneud beth rydym ni'n gwneud?

Bydd myfyrwyr yn cael profiad llawn drwy gyd-weinidogaethu yn yr eglwys leol yn y meysydd a'r gweinidogaeth canlynol:

Arwain Cyfarfodydd ac Oedfaon
- Pregethu mewn cyd-destun cyfoes a thraddodiadol
- Perthyn i ac arwain grwpiau cymuned
- Arwain addoliad mewn cyd-destun cyfoes a thraddodiadol
- Paratoi ac arwain oedfaon creadigol
- Arwain gwasanaethau mewn cartrefi henoed
- Arwain cyrsiau penodol e.e. Cwrs Alffa.
- Anogaeth i ymarfer doniau Ysbrydol mewn awyrgylch ddiogel

Gofal a Bugeilio
- Arsylwi ac ymarfer y ddawn o fugeilio mewn cyd-destun grwpiau cymuned
- Anogaeth i gyfarfod yn anffurfiol gydag aelodau'r eglwys o bob oed i'w hannog a'u meithrin mewn ffydd
- Cysgodi'r tîm arwain (os yn briodol) wrth ymweld a pharatoi ar gyfer angladdau ac ymweld ag ysbytai ac aelodau bregus

Gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd
- Ymuno a thîm arwain y Clwb Ieuenctid
- Ymuno a thîm Llan Llanast
- Ymuno a thîm Sêr Bach (Grŵp Rhieni a'u Plant)
- Cael eu rhyddhau i fynychu a gwasanaethu ar amrywiol gyrsiau yng Ngholeg y Bala dros y flwyddyn.
- Gwasanaethau mewn Ysgolion
- Agor y Llyfr

Gwasanaeth ymarferol
- Cynorthwyo yn Banc Bwyd Arfon
- Hyfforddiant ym maes cyfathrebu cyfoes yr eglwys (cynnal gwefan, tudalen facebook, paratoi deunydd hyrwyddo ayyb...)
- Rhedeg bâr coffi yn nigwyddiadau cymunedol yr eglwys
- Hyfforddiant ym maes meddalwedd ac offer taflunio a sain broffesiynol

Bod yng nghanol y gymuned
- Anogaeth a rhyddid i ymrwymo i brosiectau cymunedol yng Nghaernarfon sydd ddim byd i wneud a gwaith yr eglwys er mwyn deall yr angen i'r eglwys heddiw feithrin pontydd i mewn i'r gymuned leol.

Gair gan gyn-fyfyrwyr

Mared Williams (Interniaeth 2015/2016)
Wrth adael ysgol roeddwn i'n ansicr iawn beth oeddwn i eisiau ei wneud. Pan ddaeth y cyfle i mi wneud blwyddyn gap yng Nghaersalem nes i erioed ddychmygu gymaint byswn i'n gallu cyflawni mewn blwyddyn. Roedd y flwyddyn yn falans perffaith o ddysgu, trwy gael fy mentora gan unigolion, mynychu'r capel a grŵp cymuned ac yna cael cyfle i arwain a rhannu beth wnes i ddysgu. Roedd cyfleoedd i wneud hyn trwy helpu i arwain y grŵp ieuenctid, ar gyrsiau yng Ngholeg y Bala, sesiynau Agor y Llyfr ac yn yr Ysgol Sul. Yn ogystal â helpu mi wella rhai sgiliau ymarferol fel y gallu i gyfathrebu hefo pobl o bob oed a siarad o flaen cynulleidfa, gwnaeth y profiadau ges i yn ystod y flwyddyn ddyfnhau fy ffydd.

Catrin Hampton (Interniaeth 2016/2017)
Pan gefais i'r cyfle i brofi blwyddyn hyfforddiant gyda Chaersalem, doeddwn i ddim wedi sylweddoli faint fyddai Duw yn defnyddio'r cyfle hwn i siapio beth fyddai'n dilyn! Beth oedd yn apelio fwyaf ata i oedd cael hyfforddi mewn cyd-destun o eglwys oedd yn caru Iesu ac yn ei addoli a'i ddilyn mewn ffordd oedd yn brydferth ac yn cynnig gobaith i'r gymuned ble roedden nhw. Roedd mor werthfawr cael nid yn unig yr hyfforddiant, ond hefyd y gymuned o ddilynwyr Iesu yn fy nghefnogi, gweddïo amdana i a'r gwaith, ac yn fy annog a'm herio fel disgybl i Iesu. Yn ystod y flwyddyn cefais gyfleoedd amrywiol i ddatblygu ac i ddarganfod sgiliau a doniau mae Duw wedi rhoi i mi ar gyfer y gwaith. Yn ogystal â'r hyfforddiant ffurfiol, fe wnes i hefyd dyfu ac aeddfedu yn ysbrydol trwy fod yn rhan o deulu'r eglwys, yn enwedig trwy sesiynau mentora, grŵp tŷ, ac yn y cyfarfodydd addoli amrywiol.

Corey Hampton (Interniaeth 2017/2018)
My internship in Caersalem was the most formative in preparation for ministry, and I'm so grateful for the years spent there. The opportunity to be involved in the ministry of a church family that invested in me well, and gave me several opportunities to serve was truly a blessing and prepared me for my ministry. The opportunities to preach, lead house group, host the Alpha Course, hold services in the local nursing home, and lead the youth group each week, alongside opportunities to process each experience with a trusted leader were all of great benefit to me, and prepared me to better serve the churches I work for today. I was also given space to read and develop better skills in theological reflection, which was very important in allowing my personal experience (within the concrete ministry experience of Caersalem) to be in conversation with my interpretation of Scripture and developing theology.

CAERSALEM